

Atodiad SATC

Newidiadau WEF: 01/04/26

Cyflwyniad

Mae'r atodiad canlynol yn cyflwyno elfen 1c newydd, rheol a chanllawiau statudol o dan Safon Ansawdd Tai Cymru ac mae'n rhan o Bennod 2 – y Safon: elfennau a chanllawiau. Bydd yr elfen, y rheol, y canllawiau a'r adroddiadau cysylltiedig yn dod i rym o 01 Ebrill 2026 ac mae'n dilyn y [cyhoeddiad](#) a wnaed bod Gweinidogion Cymru “.....yn cynnig pennu rheol(au) mewn perthynas ag ymateb landlordiaid cymdeithasol i leithder, llwydni a pheryglon eraill.” Bydd y newid yn cael ei gynnwys mewn safon wedi'i diweddarau pan fydd yn cael ei chyhoeddi nesaf.

Elfen Newydd 1c

Rhaid ymchwilio ac unioni pob perygl yn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai¹ (“HHSRS”) (ac eithrio gorlenwi), sy'n cyflwyno risg sylweddol bosibl i'r tenant neu'r meddiannydd a phan fo'r perygl yn deillio o ddiffygion cydrannau adeiladu neu gyflwr gwael o fewn rheolaeth y landlord, rhaid iddo gael ei ymchwilio a'i unioni o fewn yr amserlenni a nodir yn y rheol.

Y peryglon HHSRS yw:

• Lleithder a thyfiant llwydni	• Oerfel gormodol	• Gwres gormodol	• Asbestos (ac MMF)
• Bioladdwyr	• Carbon monocsid a chynhyrchion tanwydd hylosgi	• Plwm	• Ymbelydredd
• Nwy tanwydd nas hylogwyd	• Cyfansoddion Organig Anweddol	• Tresbaswyr yn dod i mewn	• Goleuo
• Sŵn	• Hylendid domestig, Plâu a Sbwriel	• Diogelwch bwyd	• Hylendid personol, Carthffosiaeth a Draeniau
• Cyflenwad dŵr	• Cwypmo sy'n gysylltiedig â chael bath	• Cwypmo ar arwynebau gwastad	• Cwypmo ar risiau
• Cwypmo rhwng lefelau	• Peryglon posibl gyda thrydan	• Tân	• Fflamau, arwynebau twym
• Taro yn erbyn neu fynd yn sownd	• Ffrwydradau	• Safle amwynderau a hwylustod ei weithio	• Dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn

¹ Gweler Atodlen 1 i Reoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

Rheol

Rhaid ymchwilio i berygl a allai beri risg sylweddol gyda tebygolrwydd a aseswyd o niwed uniongyrchol i'r tenant/meddiannydd o fewn 24 awr a'i unioni o fewn 24 awr arall. Dylid gwneud unrhyw waith i'w wneud yn ddiogel cyn gynted â phosibl mewn unrhyw achos.

Bydd perygl a allai fod yn risg sylweddol heb unrhyw debygolrwydd a aseswyd o niwed uniongyrchol yn cael ei ymchwilio o fewn 10 diwrnod gwaith a'i unioni o fewn cyfnod pellach o 5 diwrnod gwaith.

Ar adegau ac ar y rhagdybiaeth o ymdrechion gorau, ni fydd yn bosibl unioni perygl o fewn yr amserlenni uchod. Yn yr achos hwn, rhaid darparu cynllun cryno ysgrifenedig i'r tenant (copi caled neu electronig) o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae cynnwys y cynllun cryno wedi'i nodi yn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd.

Canllawiau Statudol

- Bydd y gofyniad i gydymffurfio â'r rheol yn cael ei gyfyngu i le mae risg sylweddol yn cael ei asesu. Mae 'risg sylweddol' yn un sy'n peri risg sylweddol o niwed i iechyd neu ddiogelwch tenant/meddiannydd. Yn benodol, diffinnir risg sylweddol o niwed fel risg o niwed i iechyd neu ddiogelwch y meddiannydd y byddai aelod cymwys o weithlu'r landlord sydd â'r wybodaeth berthnasol yn cymryd camau i'w wneud yn ddiogel fel mater o frys.
- Wrth asesu risg sylweddol a niwed uniongyrchol, rhaid i landlordiaid ystyried
 - amgylchiadau unigol y tenantiaid a'r meddianwyr eraill, gan gynnwys oedran, unrhyw broblemau iechyd corfforol a/neu feddyliol ac unrhyw wendidau eraill.
 - cyflwr y cartref.
 - natur y perygl (tebygolrwydd o niwed yn digwydd a difrifoldeb posibl y niwed hwnnw yn yr amgylchiadau penodol).
- Os yw'n berthnasol, rhaid i'r cynllun cryno ysgrifenedig gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:
 - Cadarnhad o natur y perygl a nodwyd ac a yw wedi'i asesu fel un sy'n cyflwyno niwed uniongyrchol ai peidio.
 - Y camau sydd wedi'u cymryd/y camau a fydd yn cael eu cymryd i wneud yr eiddo yn ddiogel.
 - Manylion y gwaith sydd i'w wneud i unioni'r perygl.
 - Pryd y bydd y gwaith yn debygol o ddechrau a gorffen.
 - Manylion y trefniadau a wnaed i liniaru unrhyw risgiau i'r tenant/meddiannydd yn y cyfamser.
 - Sut i gysylltu â'r landlord – dylid enwi unigolyn gydag e-bost cyswllt /rhif ffôn uniongyrchol.
- Gellir darparu adroddiad cryno i'r tenant mewn copi caled neu e-bost/dull electronig, ond rhaid cofnodi'r crynodeb yn briodol yng nghofnodion y landlordiaid.
 - Bydd cydymffurfiaeth â'r rheol hon yn cael ei adrodd fel rhan o'r adroddiad cydymffurfiaeth manwl ar gyfer SATC. Bydd angen adroddiad cydymffurfio cryno lefel uchel ar wahân hefyd fel rhan o'r ffurflen landlord cymdeithasol chwarterol. Bydd disgwyl yr adroddiad chwarterol cyntaf ar ddiwedd Mehefin 2026 gyda'r adroddiad manwl llawn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/7.